

Papur trafod ar oruchwyliaeth fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi

Tachwedd 2016



Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon (ond nid y logo a'r brandio) am ddim ac mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, cyn belled â'i fod wedi ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd hwn fel hawlfraint y Cyngor Fferyllol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen. Os ydym wedi dyfynnu deunydd gan drydydd parti, rhaid i chi gael caniatâd deiliad yr hawlfraint.

Cynnwys

Ynglŷn â'r CFfC	5
Rhagair	6
Y papur trafod hwn	7
Ein hadroddiad ar y papur trafod hwn.....	8
Fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol	9
Addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol	11
Cynyddu gallu ac arbenigedd mewn goruchwyllo	13
Y camau nesaf	16
Sut byddwn ni'n defnyddio eich ymatebion.....	17
Ffurflen ymateb papur trafod	17
Cwestiynau'r papur trafod	21
Atodiad A: Cwestiynau'r papur trafod wedi'u coladu	24



Ynglŷn â'r CFFC

Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (CFFC) yw'r rheoleiddiwr ar gyfer fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd cofrestredig yn Lloegr, Yr Alban a Chymru. Ein gwaith yw diogelu, hyrwyddo a chynnal iechyd, diogelwch a lles aelodau o'r cyhoedd drwy gynnal safonau ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn fferylliaeth.

Mae ein prif waith yn cynnwys:

- gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr, technegwyr fferyllol a chymeradwyo ac achredu eu cymwysterau a'u hyfforddiant
- cadw cofrestr o fferyllwyr, technegwyr fferyllol a fferyllfeydd
- gosod y safonau y mae'n rhaid i weithwyr fferyllol proffesiynol eu bodloni drwy gydol eu gyrfa
- ymchwilio pryderon nad yw gweithwyr proffesiynol fferyllol yn bodloni ein safonau, a gweithredu i gyfyngu ar eu gallu i ymarfer pan fod hyn yn angenrheidiol er mwyn diogelu cleifion a'r cyhoedd
- gosod safonau ar gyfer fferyllfeydd cofrestredig sy'n ei gwneud hi'n ofynnol iddynt ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion
- archwilio fferyllfeydd er mwyn gwirio eu bod yn bodloni ein safonau

Rhagair

Mae rolau gweithwyr fferyllol proffesiynol a'u cyfraniadau i ofal iechyd ac iechyd y cyhoedd yn tyfu, ac felly hefyd ddisgwyliadau'r cyhoedd a disgwyliadau darparwyr gwasanaeth. Mae pob arwydd y bydd hyn yn parhau am nifer o flynyddoedd i ddod. Wrth i rolau newid, mae'n rhaid i addysg a hyfforddiant newid hefyd, fel y gall gweithwyr fferyllol proffesiynol ymdopi â'r heriau newydd y maent yn eu hwynebu.

Er bod cwmpas y papur trafod hwn yn gul – goruchwyliaeth fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol (PIPau) sy'n hyfforddi – y dystiolaeth yw bod rôl y fferyllydd fel rhagnodwr yn datblygu'n gyflym. Os ydym am gyflawni ein hymrwymiad i fod yn rheoleiddiwr ystywyth a chymesur, mae hwn yn bwnc pwysig y dylid mynd i'r afael ag ef.

Bydd y ddogfen drafod hon yn rhan o'n hadolygiad ehangach o'r safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer PIPau, sydd wedi'i amserlennu ar gyfer 2017. Ein gobaith yw y gallwn, drwy ystyried y mater cul, ond pwysig, hwn ddeall yn glir y cyfeiriad y gall addysg a hyfforddiant PIPau fynd iddo yn y dyfodol. Ein gobaith hefyd yw y bydd y papur trafod hwn yn cynorthwyo i gyfrannu at ac annog trafodaethau ehangach ynglŷn â'r gweithlu gofal iechyd a rôl fferyllwyr fel addysgwyr, hyfforddwyr, clinigwyr a rhagnodwyr.



Nigel Clarke

Cadeirydd



Duncan Rudkin

Prif Weithredwr a Chofrestrydd

Y papur trafod hwn

Mae'r ddogfen drafod hon ymwneud â goruchwyliaeth fferyllwyr-ragnodwyr sy'n hyfforddi. Ni fyddwn yn gwneud nac yn gweithredu penderfyniad terfynol ar y mater pwysig hwn hyd nes ein bod wedi cwblhau ymgynghoriad llawn ar safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn 2017.

Wrth ddatblygu'r ddogfen rydym wedi rhoi ystyriaeth i ystod o safbwyntiau, yn cynnwys adborth y gwnaethom ei dderbyn o'n papur trafod *Tomorrow's pharmacy team* (2015) a'r wybodaeth yn ein *Adroddiad Arolwg Rhagnodwyr* (2016). Drwy'r ddogfen hon rydym eisiau profi ein syniadaeth ynglŷn ag un elfen o addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr, sef goruchwyliaeth fferyllwyr-ragnodwyr sy'n hyfforddi.

Bydd y cyfnod trafod yn rhedeg am wyth wythnos, **Dydd Mercher 1 Chwefror, 2017**. Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn croesawu adborth gan unigolion a sefydliadau. Byddwn yn anfon y ddogfen hon at ystod o sefydliadau sy'n randdeiliaid, yn cynnwys: rheoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol eraill (yn arbennig y rheini sy'n rheoleiddio rhagnodwyr), cyllidwyr addysg a hyfforddiant iechyd, cyrff cynrychioliadol proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, a chyrrff cynrychioli cleifion.

Gobeithiwn y byddwch yn darllen y papur trafod hwn ac yn ystyried ymateb iddo. Mae rhagor o gopiau o'r ddogfen hon i'w cael ar ein gwefan **www.pharmacyregulation.org/** **PIPconsultation** neu gallwch gysylltu â ni os hoffech gopi o'r ddogfen mewn fformat arall (er enghraifft, mewn print mwy neu mewn iaith wahanol).

Sut i ymateb

Mae nifer o ffyrdd y gallwch ymateb i'r ymgynghoriad. Gallwch gwblhau'r holiadur ar ddiwedd y ddogfen hon neu fynd i'n gwefan www.pharmacyregulation.org/PIPnsultation/ a chwblhau'r fersiwn ar-lein yno.

Os ydych yn cwblhau'r holiadur a ddarperir yma gofynnwn i chi ei anfon i:

consultations@pharmacyregulation.org
gyda'r pwnc 'PIP consultation response'

neu ei bostio i:

PIP consultation response
Y Tîm Safonau
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain E14 5LQ

Sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun

Os oes gennych sylwadau ar y broses ymgynghori ei hun, anfonwch nhw i:

feedback@pharmacyregulation.org

neu eu postio atom yn:

Y Tîm Llywodraethiant
Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square
Llundain E14 5LQ

Dim ymatebion ymgynghoriad i'r cyfeiriad hwn.

Ein hadroddiad ar y papur trafod hwn

Unwaith y bydd y cyfnod trafod wedi dod i ben, byddwn yn dadansoddi'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn. Bydd ein cyngor llywodraethu yn derbyn y dadansoddiad. Bydd yn edrych ar yr ymatebion wrth ystyried ymgynghoriad ar ddrafft ein safonau addysg a hyfforddiant ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion yr ydym yn eu derbyn ac eglurhad ynglŷn â'r penderfyniadau a wnaed. Gallwch weld hwn ar ein gwefan www.pharmacyregulation.org

Fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol

Rôl ddatblygol fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol

Mae sut caiff gofal iechyd ei ddarparu wedi bod yn newid yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf mewn ymateb i anghenion poblogaeth sy'n newid. Mae'r boblogaeth yn tyfu ac yn mynd yn hŷn, gydag anghenion iechyd sy'n mynd yn fwy cymhleth. Mae hyn yn ychwanegu at y galw ar, a chost, gwasanaethau iechyd gwladol. Mae Llywodraethau ledled Prydan Fawr wedi amlygu'n benodol yr angen i'r gweithlu gofal iechyd ddatblygu ac addasu er mwyn ymateb i'r galwadau, ac mae hyn yn cynnwys y gweithlu fferylliaeth.

Mae polisiau Llywodraeth ledled Prydain Fawr wedi amlygu'n benodol rôl bwysig fferyllwyr yn gyffredinol a phwysigrwydd rhagnodi anfeddygol. Yn draddodiadol, byddai meddygon (a deintyddion) yn defnyddio eu hasesiad clinigol a sgiliau diagnosis i ragnodi meddyginiaethau; byddai fferyllwyr yn goruchwyllo paratoi a dosbarthu meddyginiaeth; a byddai nyrsys yn gweinyddu meddyginiaeth neu ei gyflenwi i bobl iddyn nhw ei gymryd ei hunain. Adolygiad y Goron 1999 a gydnabu'n ffurfiol am y tro cyntaf bod y gwahanu llym hwn o rolau yn aneffeithlon ac nad oedd yn gwneud y defnydd gorau o sgiliau nac amser gweithwyr gofal iechyd proffesiynol¹.

Ymhlith prif argymhellion Adolygiad y Goron oedd, caniatáu i fferyllwyr a nyrsys ragnodi meddyginiaeth oherwydd bod ganddynt lefel

¹ *Review of prescribing, supply and administration of medicines* ('Adolygiad y Goron'), 1999.

briodol o wybodaeth a sgiliau. Byddai hyn yn digwydd wedi cyfnod o addysg a hyfforddiant addas a fyddai'n cael ei benderfynu gan eu rheoleiddwyr perthnasol. Roedd yr adolygiad yn disgwyl y byddai dau fath o ragnodi:

- *annibynnol* – gallai rhagnodwyr rhagnodi heb ymgynghori â rhagnodwr arall, a
- *dibynnol* – byddai rhagnodwyr dim ond yn gallu rhagnodi o fewn cynllun rheoli clinigol claf-benodol a luniwyd gan rhagnodwr arall, meddyg fel arfer. (Dros amser, daeth rhagnodi *dibynnol* i'w adnabod fel rhagnodi *atodol*.)

Derbyniwyd argymhellion Adolygiad y Goron gan y llywodraeth ac erbyn 2003 roedd rhagnodi atodol gan fferyllwyr wedi'i ganiatáu. Erbyn 2006 roedd rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr hefyd wedi'i ganiatáu.

Diffiniodd Cymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr, sef y rheoleiddiwr ar gyfer fferylliaeth ym Mhrydain Fawr ar y pryd, yr addysg a'r hyfforddiant fyddai eu hangen ar fferyllwyr-ragnodwyr, yn seiliedig ar ganllawiau eang gan yr Adran Iechyd. Dechreuodd achredu cyrsiau a fyddai'n arwain at fferyllwyr yn cael 'anodiad' ar ei gofrestr fel naill ai rhagnodwr atodol neu annibynnol. Mae'r galw am gyrsiau wedi cynyddu'n gyson ers hynny ac erbyn hyn mae 39 o gyrsiau rhagnodi annibynnol achrededig ar gael ar gyfer fferyllwyr ym Mhrydain Fawr, gyda phedwar arall yn barod i gael eu hachredu².

² Mae nifer y cyrsiau fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn parhau i gynyddu. Fodd bynnag, mae diddordeb mewn rhagnodi atodol wedi lleihau'n fawr ac mae pob cwrs rhagnodi atodol wedi cau. Mae pedwar cwrs, sy'n trosi rhagnodwyr atodol yn ragnodwyr annibynnol yn dal ar agor, ond maent yn debygol o gau yn yr ychydig

Ar 15 Medi 2016 roedd 3,189 o ragnodwyr annibynnol anodedig, 389 o ragnodwyr atodol anodedig a 964 o fferyllwyr gydag anodiad deuol.

Bydd y ddogfen hon ond yn cwmpasu fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol (PIPau), oherwydd mae'n ymddangos mai'r rôl annibynnol ac nid yr un atodol fydd yn tyfu yn y dyfodol.

Mae'r defnydd o PIPau wedi tyfu ac wedi ehangu yn ei gwmpas er i'r cyrsiau cyntaf gael eu hachredu. Yn 2015, fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus *Tomorrow's pharmacy team*, gwnaethom ddadansoddi dogfennau polisi fferylliaeth Prydain Fawr. Roedd hi'n drawiadol bod y defnydd o PIPau yn ganolog i bolisi fferylliaeth ym mhob un o dair gwlad Prydain Fawr. Mae'r defnydd o PIPau mewn timau amlddisgyblaeth mewn nifer o sefyllfaoedd gofal iechyd - gyda rhai gwahaniaethau rhwng cyd-destunau yn Lloegr, Yr Alban a Chymru - eisoes yn digwydd ac mae disgwyl iddo ehangu.

Yn 2016 cynhaliom arolwg o ragnodwyr ar ein cofrestr. Gwnaethom hyn er mwyn:

- cael dealltwriaeth fwy manwl o sefyllfa ymarfer rhagnodi, a
- deall pa rwystrau a allai fod yn atal y nifer sy'n manteisio ar a'r defnydd o fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol³

flynyddoedd nesaf. Achredir cyrsiau newydd gan baneli arbenigol o fferyllwyr-ragnodwyr a benodir gan y CfC. Gellir gweld rhestr lawn o gyrsiau rhagnodi achrededig yn

www.pharmacyregulation.org/education/pharmacist-independent-prescriber/accredited-courses

³ Adroddiad arolwg rhagnodwyr CfC (2016); yn 2013, fel rhan o'n arolwg o'n holl gofrestrredigion, cynhaliom

Cadarnhaodd ein harolwg bod rhagnodi annibynnol gan fferyllwyr yn digwydd mewn manau, ond bod rhai rhagnodwyr yn teimlo bod rhwystrau iddynt rhag datblygu eu rôl. Roedd y rhain yn cynnwys:

- diffyg cyfleoedd i ragnodi
- diffyg canfyddedig cefnogaeth gan rai o fewn eu timau gofal iechyd, a
- diffyg cymhelliannau ariannol neu yrfaol i ddatblygu eu sgiliau rhagnodi

Dangosodd yr arolwg hefyd nad oedd PIPau yn rhagnodi yn gymharol ynysig mewn meysydd ymarfer cul (er mai dyma'r farn yr oeddem wedi ei chlywed yn cael ei mynegi). Yn wir, roedd PIPau yn defnyddio eu gwybodaeth eang am feddyginiaethau i ragnodi ar draws ystod o gyflyrau mewn timau amlbroffesiwn. Gwelwyd hyn drwy'r mathau o gyrsiau rhagnodi annibynnol newydd yr oedd pobl wedi bod yn gofyn i ni amdanynt. Mae'r rhain wedi dechrau newid o geisiadau am gyrsiau rhagnodi cyffredinol ar gyfer maes penodol, i gyrsiau a gomisiynwyd gan sefydliadau GIG lleol i gefnogi mentrau rhagnodi penodol: megis grwpiau hyfforddi o fferyllwyr i weithio fel clinigwyr a rhagnodwyr mewn adrannau damweiniau ac achosion brys.

Mae defnydd wedi'i dargedu o PIPau yn cael ei gyflwyno yn genedlaethol hefyd, trwy fentrau megis rhaglen Health Education England ar gyfer PIPau sydd eisiau gweithio mewn practisau meddygon teulu. Ar hyn o bryd mae 480 o PIPau wedi cofrestru ar gwrs hyfforddi⁴ a

ymchwil i ragnodi gan fferyllwyr ac arolwg dilynol i hwnnw oedd arolwg 2016.

⁴ www.cppe.ac.uk/career/gp-pharmacist-training-pathway

gomisiynwyd ac a gyflwynir gan y Ganolfan ar gyfer Addysg Fferylliaeth Ôl-radd (CPPE). Mae ymrwymiad i gynnig 1,500 yn rhagor o leoedd mewn ail gam. Gan ystyried y mentrau hyn gyda'i gilydd, gallwn ddweud yn eithaf hyderus mai'r darlun sy'n dod i'r amlwg yw un lle defnyddir PIPau yn fwyfwy fel clinigwyr a rhagnodwyr mewn timau gofal llinell flaen lle gellir gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd parthed meddyginiaethau.

Addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol

Yn yr adran hon rydym yn edrych yn fanylach ar addysg a hyfforddiant PIPau, yn arbennig goruchwyliaeth arnynt wrth hyfforddi.

Gofynion addysg a hyfforddiant

Rhaid i fferyllwyr sydd am ddod yn PIPau dderbyn addysg a hyfforddiant ychwanegol cyn derbyn anodiad fel rhagnodwr annibynnol ar ein cofrestr. Mae cael eu hanodi yn golygu eu bod wedi llwyddo mewn cwrs a achredwyd gennym ni, a bod ganddynt y sgiliau a'r galluoedd angenrheidiol i weithio fel rhagnodwr annibynnol o fewn cwmpas eu hymarfer.

Cyn cael ei dderbyn ar gwrs, mae'n rhaid i fferyllwyr fodloni isafswm gofynion, sy'n cynnwys bod yn rhaid iddynt:

- fod yn fferyllwyr ym Mhrydain Fawr neu Ogledd Iwerddon gyda dwy flynedd o brofiad o weithio gyda chleifion
- bod wedi dewis maes ymarfer clinigol i ddatblygu eu sgiliau rhagnodi ynddo a bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf a pherthnasol am y maes hwnnw; a
- bod ganddynt ymarferydd meddygol dynodedig (DMP)⁵ sy'n barod ac sydd â chymwysterau priodol i'w mentora mewn cyfnodau o hyfforddiant mewn ymarfer tra eu bod yn astudio ar gwrs

⁵ Defnyddir y term 'ymarferydd meddygol goruchwyllo dynodedig' (DSMP) yng Nghymru.

Y gofynion ar gyfer cyrsiau⁶ yw bod yn rhaid iddynt:

- gyflwyno ein canlyniadau dysgu ar gyfer hyfforddiant rhagnodi annibynnol
- bod wedi'u seilio ar ein 'maes llafur dangosol'
- cynnwys o leiaf 26 diwrnod o weithgareddau dysgu - gall y rhain fod yn gyfan gwbl wyneb yn wyneb mewn prifysgol, wedi'u darparu o bell neu gallant fod yn gyfuniad o'r ddau
- cynnwys o leiaf 90 awr (12 x diwrnod 7.5 awr) o ddysgu mewn practis. Dyma lle bydd PIP sy'n hyfforddi yn datblygu ei sgiliau clinigol a diagnostig a galluoedd gwneud penderfyniadau tra'n dysgu rhagnodi o dan oruchwyliaeth DMP
- gwneud yn siŵr bod DMPau yn briodol ar gyfer anghenion y PIPau sy'n hyfforddi ar y cwrs a'u bod wedi eu hyfforddi ar gyfer y rôl

Yn ogystal â chyflwyno ein canlyniadau dysgu, rhaid i bob cwrs gyflwyno set genedlaethol o gymwyseddu sy'n gyffredinol i bob rhagnodwr. Golyga hyn bod gan bob rhagnodwr - boed hwy'n fferyllwyr, meddygon, nyrsys neu unrhyw ragnodwr arall - yr un set o sgiliau sylfaenol. Mae'r cymwyseddu hyn wedi eu nodi yn A *single competency framework for all prescribers* (a ysgrifennwyd ac a gynhelir gan y Gymdeithas

⁶ Mae'r gofynion hyn wedi eu nodi yn ***Achredu rhaglenni rhagnodi annibynnol: ganllawiau ar gyfer darparwyr cyrsiau*** y byddwn yn ymgynghori arni yn 2017 fel rhan o'r ymgynghoriad ar safonau addysg ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr.

Fferyllol Frenhinol ar ran y proffesiynau rhagnodi⁷, 2016).

⁷ Y proffesiynau rhagnodi anfeddygol yw fferyllwyr, nyrsys ac optometryddion (rhagnodwyr annibynnol); a ffisiotherapyddion, podiatregwyr, ciropodyddion, a radiograffwyr diagnostig a therapiwtig (rhagnodwyr atodol). Gweler **gwefan NHS Choices** am ragor o wybodaeth. Cefnogir y fframwaith gan Gymdeithas y Rhagnodwyr, Cymdeithas Dietegwyr y DU, Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, Cymdeithas Fferyllol Prydain, Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi, Coleg brenhinol y Radiograffwyr, Coleg yr Optometryddion, Coleg Podiatreg, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol, Coleg Nyrsio Brenhinol, Coleg Brenhinol y Ffisegwyr a'r Gymdeithas Fferyllol Frenhinol.

Cynyddu gallu ac arbenigedd mewn goruchwyllo

Cyd-destun

Deilliodd rôl y DMP er mwyn cefnogi ehangiad sgiliau rhagnodi mewn proffesiynau gofal iechyd anfeddygol. Fodd bynnag, rydym wedi clywed nifer o'n rhanddeiliaid – yn cynnwys darparwyr gofal iechyd, gweithwyr proffesiynol a chyrrff addysg – yn dweud y gallai'r angen am DMP fod yn rhwystr i ehangiad fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol. Cyflwynwyd sawl dadl gref y dylai'r gofynion goruchwyllo newid i gefnogi addysg a hyfforddiant o ansawdd uchel gwell fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol. Crynhoir y dadleuon hyn isod a chânt eu hesbonio mewn rhagor o fanylder yn yr adran hon:

- yr egwyddor y dylai ymarferwyr profiadol mewn unrhyw broffesiwn neu arbenigedd oruchwyllo hyfforddeion yn eu maes ymarfer
- y cyfle i gynnwys arbenigedd fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol mewn hyfforddi'r genhedlaeth nesaf; a
- manteision ymarferol ar gyfer cynllunio gweithlu, gan y byddai mwy o oruchwylwyr ar gael gan arwain at gynnydd yn niferoedd y PIPau

Goruchwylloaeth gan ymarferwyr rhagnodi profiadol

Fel yr ydym eisoes wedi clywed, mae set gyffredin o sgiliau ar gyfer pob rhagnodwr. Rydym eisiau profi'r syniad y dylid caniatáu i ragnodwyr gweithredol gyda phrofiad addas, boed hwy'n fferyllwyr, meddygon, nyrsys neu ragnodwyr eraill, oruchwyllo PIPau sy'n hyfforddi yn ystod eu cyfnodau o ddysgu mewn ymarfer. Byddai hyn yn golygu bod y gofyniad presennol i gael ymarferydd meddygol dynodedig (DMP) ar gyfer goruchwyllo ymarfer yn cael ei ddisodli gan ofyniad am oruchwylwyr ymarfer sy'n rhagnodwyr annibynnol. Gallai'r rhain fod o ystod o feysydd proffesiwn. Fferyllwyr-ragnodwyr a nyrsys-ragnodwyr annibynnol yw'r ymarferwyr mwyaf tebygol i ymuno â'r tîm goruchwyllo addysg, ond ni ddylem anwybyddu defnyddio rhagnodwyr eraill pan fo hynny'n briodol.

Rydym o'r farn nad oes angen unrhyw newid mewn deddfwriaeth er mwyn addasu'r gofynion goruchwyllo ar gyfer PIPau, gan y pennir y rhain gan y rheoleiddiwr. Fodd bynnag, rydym yn deall pwysigrwydd cynnal hyder rhanddeiliaid wrth ystyried unrhyw newid.

Gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol

Mae cael eich ysbrydoli gan fodlau rôl yn eich proffesiwn eich hun yn gymhellant cryf i ddatblygu eich ymarfer. Mae PIPau yn flaenllaw

mewn ymarfer fel rhagnodwyr clinigol ac mae llawer ohonynt yn, neu hoffent fod yn, addysgwyr hefyd.

Gall PIPau sy'n gweithio gyda PIPau sy'n hyfforddi eisoes fod yn rhoi iddynt fantais eu profiad yn y gweithle. Fodd bynnag, oherwydd y cyfyngiadau presennol, ni allant weithredu'n ffurfiol fel goruchwylwyr iddynt. Mae peidio â chaniatáu i ymarferydd profiadol weithredu mewn rôl y mae eisoes yn ei chyflawni yn tansilio'r unigolyn ac nid yw'n unol ag ysbryd Adolygiad y Goron. Bydd y newidiadau a gynigir gennym ni yn caniatáu i PIPau sy'n hyfforddi, yn y gweithle a thra byddant yn astudio, wneud y defnydd llawnaf a mwyaf effeithiol o'u profiad.

Mae'n bwysig y dylid caniatáu i PIPau gael eu goruchwyllo gan rhagnodwyr o amrywiaeth o broffesiynau gofal iechyd. Nid ydym yn awgrymu y dylai PIPau sy'n hyfforddi gael eu goruchwyllo'n awtomatig gan PIPau. Efallai'n wir y gallai PIPau sy'n hyfforddi elwa'n fawr o gael eu goruchwyllo gan weithwyr proffesiynol sydd ddim yn fferyllwyr. Y pwynt allweddol yw y dylai trefniadau goruchwyllo gael eu seilio ar anghenion penodol PIP sy'n hyfforddi.

Cynyddu'r gweithlu fferyllwyr-ragnodwyr

Er mwyn cynyddu'r gweithlu fferyllwyr-ragnodwyr mae'n rhaid i ni gynyddu ein gallu i addysgu a hyfforddi PIPau. Er efallai y croesewir mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i hybu niferoedd y PIPau o safbwynt gwasanaeth, mae'r straen ar DMPau yn debygol o ddatblygu i fod hyd yn oed yn fwy. Efallai y bydd hyn yn dechrau cyfyngu ar ddatblygiad cyrsiau newydd (ac felly cyfyngu ar dwf

fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn y gwasanaethau hynny). Drwy newid y gofynion goruchwyllo, dylai'r pwysau ar ddarparwyr cyrsiau a'r gwasanaeth gael ei leihau, gan ganiatáu i'r gwasanaethau ehangu yn ôl y galw.

Goruchwylwyr sicrwydd ansawdd

Mae fframwaith sicrwydd ansawdd wedi'i sefydlu ar gyfer cefnogi a datblygu DMPau. Gellid addasu a chymhwyso hwn ar gyfer goruchwylwyr rhagnodi eraill. Gan ystyried y fframwaith hwnnw, rydym o'r farn y dylai'r pedwar mesur canlynol roi cefnogaeth briodol i oruchwylwyr rhagnodi anfeddygol:

- 1 Rhaid bod goruchwylwyr wedi gweithio yn y maes rhagnodi y mae'r PIP sy'n hyfforddi am ddysgu rhagnodi ynddo cyn dod yn oruchwyllydd iddynt. Nid ydym eisiau nodi am ba hyd y dylent fod wedi gweithio yn y maes - nid yw amser gwasanaeth bob amser yn gyfystyr â chymhwysedd. Ond efallai y bydd angen i oruchwylwyr ddangos i ddarparwr cwrs eu bod â'r sgiliau priodol i gyflawni rôl goruchwyllo rhagnodi. Byddai hyn yn gwneud yn siŵr bod goruchwylwyr yn ddigon profiadol fel rhagnodwyr annibynnol cyn gweithio fel goruchwyllydd.
- 2 Rhaid bod goruchwylwyr wedi'u hyfforddi ar gyfer y rôl cyn eu bod yn dechrau ar y gwaith. Credwn mai rôl ar gyfer darparwyr cyrsiau fyddai darparu'r hyfforddiant hwn - ynghyd â 'chadarnhau' goruchwylwyr posibl - yn gweithio gyda chyflogwr a chydweithwyr y goruchwyllydd. Byddai hyn yn gwneud yn siŵr bod goruchwylwyr yn deall sut i oruchwyllo hyfforddeion a'r hyn sy'n ofynnol ganddynt fel goruchwylwyr.

- 3 Rhaid i oruchwylwyr gael eu mentora am gyfnod unwaith y byddant yn dechrau goruchwyllo. Bydd hyn yn caniatáu iddynt gael eu cefnogi tra eu bod yn datblygu eu sgiliau tiwtora. Byddai hyn yn gwneud yn siŵr y byddai effeithiolrwydd goruchwyllydd yn cael ei gefnogi a'i gadarnhau gan oruchwyllydd rhagnodi arall, mwy profiadol.
- 4 Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gefnogi goruchwylwyr tra eu bod yn gysylltiedig â chwrs achrededig. Bydd natur y gefnogaeth wedi ei seilio ar anghenion yr unigolyn. Byddai hyn yn gwneud yn siŵr bod goruchwylwyr yn deall eu rôl yng nghydestun cwrs.

Rydym wedi cynnwys cwestiwn ynglŷn â'r mesurau hyn yn y papur trafod. Os ydych chi o'r farn mai rhain yw'r mesurau cywir, neu os ydych yn meddwl fel arall, dywedwch wrthym.

Goblygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y newidiadau a gynigir

Rydym wedi ystyried goblygiadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI) y newidiadau yr ydym yn eu hawgrymu yn y ddogfen hon ac nid ydym wedi canfod unrhyw faterion sylweddol ar y cam hwn.

Amlygodd ein harolwg 2015 o ragnodwyr rwystrau i ragnodi. Fodd bynnag, ni wnaeth godi materion ynglŷn â goruchwyllo ymarfer, ac nid oes gennym unrhyw dystiolaeth a fyddai'n awgrymu y bydd newid gofynion goruchwyllo yn cael effaith anffafriol ar EDI. Byddwn yn adolygu ein sefyllfa yng ngoleuni'r adborth yr ydym yn ei dderbyn i'r ddogfen drafod hon a byddwn yn cynnwys asesiad cydraddoldeb pan

fyddwn yn cyhoeddi safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

Y camau nesaf

Rydym wedi rhoi rhai casgliadau rhagarweiniol yn y papur hwn, y mae angen i ni eu profi. Os bydd cefnogaeth i'n casgliadau byddwn yn:

- eu defnyddio i ddatblygu gofynion goruchwylio penodol ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi, a'u
- cynnwys yn ein hymgyngoriad ffurfiol ar safonau addysg a hyfforddiant diwygiedig ar gyfer fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn 2017

Os na chefnogir ein casgliadau, a bod tystiolaeth i herio ein tybiaethau, mae angen dweud wrthym fel y gallwn ail-ystyried ein syniadaeth. Bydd cadarnhau, gwrthod neu herio ein casgliadau cychwynnol yn ganlyniad pwysig i'r drafodaeth hon.

Adolygu'r safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol.

Mae ein hadolygiad o'r safonau yn dechrau gyda'r papur trafod hwn. Byddwn yn ymgynghori ar safonau drafft yn haf 2017 a gobeithiwn gyhoeddi safonau diwygiedig erbyn diwedd 2017. Bydd y safonau drafft yn cynnwys cynigion goruchwylio dysgu wrth ymarfer gan roi ystyriaeth i'r ymatebion i'r papur trafod hwn.

Bydd fersiynau presennol y safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol yn parhau mewn grym hyd nes y cytunir ar fersiynau diwygiedig gan ein cyngor.

Gadael i ni wybod beth yw eich barn

Rydym eisiau clywed gan amrediad o randdeiliaid, yn cynnwys fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol, fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol, rheoleiddwyr gweithwyr iechyd proffesiynol eraill (yn arbennig y rheini sy'n rheoleiddio rhagnodwyr), cyllidwyr addysg a hyfforddiant iechyd, cyrff cynrychioliadol proffesiynol, cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, a chyrff cynrychioli cleifion.

Rydym yn croesawu eich barn am y materion a gwmpesir yn y papur hwn.

Camau nesaf

Bydd eich ymatebion i'r ddogfen hon yn ein cynorthwyo i siapio ein safonau ar gyfer cyrsiau hyfforddi PIP. Ein nod yw dechrau ymgynghoriad cyhoeddus ar y rhain yn 2017.

Dywedwch wrthym beth yw eich barn drwy fynd i www.pharmacyregulation.org/PIPconsultation ac ymateb erbyn **Dydd Mercher 1 Chwefror, 2017**.



Sut byddwn ni'n defnyddio eich ymatebion

Ar ôl yr ymgynghoriad, byddwn yn cyhoeddi adroddiad yn crynhoi'r hyn a glywom. Efallai y byddwn yn dyfynnu rhan o'ch ymateb yn yr adroddiad neu mewn dogfennau eraill. Ond os mai fel unigolyn preifat y byddwch wedi ymateb, ni fyddwn yn defnyddio'ch enw oni bai eich bod yn dweud wrthym y gallwn.

Efallai y cyhoeddwn eich ymateb yn llawn oni ddywedwch wrthym am beidio â gwneud hynny. Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, dylech egluro pam eich bod o'r farn bod y wybodaeth a roddoch yn gyfrinachol. Fodd bynnag, ni allwn warantu cyfrinachedd ymhob amgylchiad.

Mae'n bosibl y bydd angen i'r CFFC ddatgelu gwybodaeth dan ddeddfau'n ymwneud â mynediad I wybodaeth (Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 fel arfer).

Os oes ymwadiad cyfrinachedd wedi ei greu gan eich system TG ynghlwm wrth eich ymateb, ni fydd hyn ynddo'i hun yn rhwymedig ar y CFFC.

Bydd unrhyw wybodaeth monitro cydraddoldeb a roddir gennych yn cael ei defnyddio i adolygu effeithiolrwydd ein proses ymgynghori. Ni fydd yn cael ei chyhoeddi yn rhan o ymateb cyhoeddedig.

Ffurflen ymateb papur trafod

Ymateb i'r papur trafod ar oruchwyliaeth fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol sy'n hyfforddi

Os ydych am i'ch ymateb aros yn gyfrinachol, eglurwch pam eich bod yn credu bod y wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi yn gyfrinachol. Ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd ym mhob amgylchiad.

- A fyddech cystal â thynnu fy enw oddi ar fy ymateb a gyhoeddir

Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â chyhoeddi unrhyw ran o'ch ymateb:

Cwestiynau cefndir

Yn gyntaf, hoffem ofyn i chi am ychydig o wybodaeth gefndir. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i ddeall barn grwpiau, unigolion neu sefydliadau penodol a'n galluogi i ymateb yn well i'r farn honno.

A ydych chi'n ymateb:

- fel unigolyn – ewch i adran A
- ar ran sefydliad – ewch i adran B

Adran A – Ymateb fel unigolyn

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

cyfeiriad:

e-bost:

Lle ydych chi'n byw?

- Lloegr
- Yr Alban
- Cymru
- Gogledd Iwerddon
- arall (rhowch fanylion)

A ydych chi'n ymateb fel:

- aelod o'r cyhoedd
- gweithiwr fferyllol proffesiynol – ewch i adran A1
- hyfforddai cyn-gofrestru
- myfyriwr
- arall (rhowch fanylion)

Adran A1 – Gweithwyr fferyllol proffesiynol

A ydych chi'n:

- fferylllydd
- technegydd fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau'r maes yr ydych yn gweithio'n bennaf ynddo:

- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa ysbyty
- sefydliad gofal sylfaenol
- addysg a hyfforddiant fferylliaeth
- y diwydiant fferyllol
- arall (rhowch fanylion)

Adran B – Ymateb ar ran sefydliad

Dywedwch wrthym beth yw eich:

enw:

teitl eich swydd:

sefydliad:

cyfeiriad:

e-bost:

enw cyswllt ar gyfer ymholiadau:

A yw eich sefydliad yn:

- sefydliad fferyllol
- sefydliad sydd ddim yn un fferyllol

Dewiswch yr opsiwn isod sy'n disgrifio orau eich sefydliad

- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli gweithwyr proffesiynol
- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli cleifion neu'r cyhoedd
- corff neu sefydliad sy'n cynrychioli masnach neu ddiwydiant
- fferyllfa gymunedol
- fferyllfa gorfforaethol – lluosog
- fferyllfa annibynnol
- sefydliad neu grŵp GIG
- sefydliad ymchwil, addysg neu hyfforddiant
- adran neu sefydliad llywodraeth
- corff rheoleiddio
- arall (rhowch fanylion)

Cwestiynau'r papur trafod

Fe wnaethom nodi tri rheswm craidd dros newid y gofynion goruchwyliaeth presennol ar gyfer hyfforddiant PIPau:

- a. Mae'n iawn mewn egwyddor i ymestyn hawliau goruchwyllo i ragnodwyr anfeddygol profiadol.
- b. Mae'n gwneud synnwyr i gael eich goruchwyllo gan PIPau eraill - pobl sydd eisoes yn gweithio yn y rôl honno.
- c. Mae angen cynyddu gallu goruchwyliaeth er mwyn caniatáu i gyrsiau fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol dyfu er mwyn ateb y galw am wasanaeth.

1. A ydych chi'n meddwl y dylai'r gofynion goruchwyllo presennol gael eu newid oherwydd y rhesymau hyn?

Ydw Nac Ydw

Ychwanegwch eich sylwadau yma:

2. A ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn hawliau goruchwyllo i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol profiadol?

Ydw Nac Ydw

Ychwanegwch eich sylwadau yma:

3. A ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn hawliau goruchwyllo i ragnodwyr annibynnol profiadol eraill?

Ydw Nac Ydw

Ychwanegwch eich sylwadau yma:

Rydym yn cynnig y dylid rhoi pedwar mesur ar waith os caiff hawliau goruchwyllo eu hymestyn:

- a. Rhaid bod goruchwylwyr wedi gweithio yn y maes y mae'r PIP sy'n hyfforddi yn dymuno dysgu rhagnodi ynddo cyn dod yn oruchwyllydd arnynt.
- b. Rhaid bod goruchwylwyr wedi eu hyfforddi ar gyfer y rôl cyn eu bod yn dechrau.
- c. Rhaid i oruchwylwyr gael eu mentora am gyfnod o amser unwaith y byddant yn goruchwyllo.
- d. Rhaid i ddarparwyr cyrsiau gefnogi goruchwylwyr drwy gydol eu cyfnod fel goruchwylwyr cysylltiedig â chwrs achrededig.

4a. A ydych chi'n cytuno mai rhain yw'r mesurau cywir?

Ydw Nac Ydw

4b A ddylai fod unrhyw fesurau eraill? Os 'Dylai', eglurwch beth ddylent fod.

Dylai Na Ddylai

Ychwanegwch eich sylwadau yma:

5. A oes unrhyw faterion cydraddoldeb, amrywiaeth neu gynhwysiant yr ydych chi'n teimlo sydd wedi dod i'r amlwg gan ein cynigion?

Oes Nac Oes

Ychwanegwch eich sylwadau yma:

Monitro cydraddoldeb

Yn y CFFC rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, gwerthfawrogi amrywiaeth a bod yn gynhwysol yn ein holl waith fel rheoleiddiwr gweithwyr iechyd proffesiynol, a gwneud yn siŵr ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb.

Rydym eisiau gwneud yn siŵr fod gan bawb gyfle i ymateb i'n hymgyngoriad ar safonau ar gyfer gweithwyr fferyllol proffesiynol. Bydd y ffurflen monitro cydraddoldeb hon yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ni fel y gallwn wirio bod hyn yn digwydd.

Nid oes yn rhaid i chi ei llenwi, ac ni chaiff eich atebion ar y ffurflen hon eu cysylltu i'ch ymatebion i'r ymgynghoriad.

Beth yw eich rhyw?

Ticiwch un blwch

- Gwryw
- Benyw
- Arall

Beth yw eich cyfeiriadedd rhywiol?

Ticiwch un blwch

- Heterorywiol/syth
- Menyw hoyw /lesbiad
- Dyn hoyw
- Deurywiol
- Arall

- Gwell gennyf beidio dweud

A ydych chi'n ystyried eich hun yn anabl?

Diffinnir anabledd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel "amhariad corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar allu person i wneud gweithgareddau arferol bob dydd". Ticiwch un blwch.

- Ydw
- Nac Ydw
- Gwell gennyf beidio dweud

Beth yw eich grŵp oedran?

Ticiwch un blwch

- 16 – 24 oed
- 25 – 34 oed
- 35 – 44 oed
- 45 – 54 oed
- 55 – 64 oed
- 65 + oed

Beth yw eich grŵp ethnig?

Dewiswch y blwch priodol i ddynodi eich cefndir diwylliannol. Ticiwch un blwch.

Gwyn

- Prydeinig
- Gwyddelig

- Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig
- Cefndir gwyn arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Du neu Ddu Prydeinig

- Du Caribiaidd
- Du Affricanaidd
- Cefndir du arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Cymysg

- Gwyn a Du Caribiaidd
- Gwyn a Du Affricanaidd
- Du ac Asiaidd
- Unrhyw gefndir cymysg arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig

- Indiaidd
- Pacistani
- Bangladeshi
- Asiaidd arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig

- Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig
- Grŵp ethnig arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)


Arabaidd

- Arabaidd
- Unrhyw gefndir ethnig arall (rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)

Beth yw eich crefydd?

Ticiwch un blwch

- Dim
- Bwdhydd
- Cristion
- Hindŵ
- Iddew
- Muslim
- Arall rhowch ragor o wybodaeth yn y blwch isod)
- Gwell gennyf beidio dweud



Atodiad A: Cwestiynau'r papur trafod wedi'u coladu

1. A ydych chi'n meddwl y dylai'r gofynion goruchwylio presennol gael eu newid oherwydd y rhesymau hyn?
2. A ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn hawliau goruchwylio i fferyllwyr-ragnodwyr annibynnol profiadol?
3. A ydych chi'n cytuno y dylid ymestyn hawliau goruchwyliaeth i ragnodwyr annibynnol profiadol eraill?
- 4a. A ydych chi'n cytuno mai rhain yw'r mesurau cywir?
- 4b. A ddylai fod unrhyw fesurau eraill? Os 'Dylai', eglurwch beth ddylent fod.
5. A oes unrhyw faterion cydraddoldeb, amrywiaeth neu gynhwysiant yr ydych chi'n teimlo sydd wedi dod i'r amlwg gan ein cynigion?



Cyngor Fferyllol Cyffredinol

© Cyngor Fferyllol Cyffredinol 2016

Cyngor Fferyllol Cyffredinol
25 Canada Square, Llundain E14 5LQ
F 020 3713 8000
E info@pharmacyregulation.org

 [@TheGPhC](https://twitter.com/TheGPhC)
 [TheGPhC](https://www.facebook.com/TheGPhC)
 [/company/general-pharmaceutical-council](https://www.linkedin.com/company/general-pharmaceutical-council)
www.pharmacyregulation.org